COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 8 MEHEFIN 2026 YN 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| S J Bletsoe | JPD Blundell | AJ Williams |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Clarke | P Davies | RM James | W J Kendall |
| M Lewis | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford, D M Hughes, J Llewellyn-Hopkins a/ac R Williams

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Cynghorydd Martyn Jones | Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| David Wright | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd |
| Raeanna Grainger | Rheolwr Grŵp – IAA a Diogelu |
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Tanya Smith | Pennaeth Strategaeth, Blynyddoedd Cynnar ac Ieuenctid |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiadau o Fuddiannau

AJ Williams – Personol – Eitem 4 – Llywodraethwr Cymunedol a Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Coety
Eitem 8 – Aelod o Llais

## 66. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles dyddiedig 12 Mawrth 2026 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mehefin 2026 |

## 67. 'Ein Dewrder a Ddaeth â Chyfiawnder' - ymateb Pen-y-bont ar Ogwr i Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o’r Cabinet, Swyddogion a Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â chais am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt ystyried gwneud hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob llywodraethwr ysgol.<br><br>2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch lefel presenoldeb Cadeiryddion y Llywodraethwyr yn y cyfarfodydd a drefnir gan y Pennaeth Dysgu fesul tymor ac a ydynt yn ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol ac **argymhellodd** y dylai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ysgrifennu at bob Cadeirydd Llywodraethwyr gan rannu copi o'r adroddiad ac egluro eu rolau a'u cyfrifoldebau. |

| | |
|---|---|
| | 3. Bu'r Pwyllgor yn trafod a oedd llwybrau at ddiogelu yn glir i'r holl Lywodraethwr ysgol a rhieni ac **argymhellodd** i hyn fod yn eitem sefydlog ar Agenda cyfarfodydd Cadeiryddion y Llywodraethwyr a drefnir gan y Pennaeth Dysgu bob tymor a bod sylw rhieni yn cael ei dynnu at lwybrau at ddiogelu mewn cylchlythyr ac ar apiau rhieni.<br><br>4. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod yr adroddiad yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid er gwybodaeth.<br><br>5. Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr *Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Gam-drin Plant yn Rhywiol a Dealltwriaeth o Ddynion sy'n Cam-drin Plant yn Rhywiol* a eglurwyd yn y Cynllun Gweithredu oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ac **argymhellodd** y dylid newid y cyfeiriad at *Ddynion* i *Bobl* yn nheitl yr hyfforddiant ac yn ei gynnwys hefyd.<br><br>6. Bu'r Pwyllgor yn trafod pwysigrwydd a chyfrifoldeb rôl yr Aelodau fel Rhieni Corfforaethol ac **argymhellodd** y dylid ystyried gwneud hyfforddiant Rhianta Corfforaethol yn orfodol a bod yr hyfforddiant yn cael ei ail gyflwyno i bob Aelod yn fuan.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol**<br><br>7. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopïau o ymatebion Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morganwg, Heddlu De Cymru a Llywodraeth Cymru i Adolygiad Ymarfer Plant Gogledd Cymru.<br><br>8. **Gofynnodd** y Pwyllgor am fanylion ynghylch y ffordd y caiff arweinwyr diogelu mewn ysgolion eu dewis. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mehefin 2026 |

**68. Enwebiad Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Enwebu'r Cynghorydd Della Hughes i gynrychioli Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles fel un wedi ei gwahodd i gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet ar Rianta Corfforaethol. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mehefin 2026 |

## 69. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26, Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-26 a'r Traciwr Rheoleiddio a ddiweddarwyd ar gyfer Chwarter 3 2025-26 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ac roedd yn cadw'r dangosfwrdd a'r traciwr mewn cof wrth ystyried adroddiad Blaenraglen Waith y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mehefin 2026 |

## 70. Diweddariad Rhaglen Gwaith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith (BW) yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y canlynol i'w hadolygu gan Weithgor yn y lle cyntaf, nodi'r Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol er gwybodaeth:<br><br>a. Adolygiad Llywodraeth Cymru o Fyrddau Diogelu; ac<br>b. Adolygiad o Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mehefin 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 71. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 8 Mehefin 2026 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Terfynwyd y cyfarfod yn 13:06.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**